

**2015 Rhif**                      (Cy.            )

**2015 No.**                      (W.            )

**TRAFFIG FFYRDD, CYMRU**

**ROAD TRAFFIC, WALES**

Gorchymyn (Dirymu) Gorchymyn  
Cefnffordd (yr A40) (Ffordd  
Trefynwy, y Fenni, Gwent) (Terfyn  
Cyflymder 40 MYA) 1991 2015

The Trunk Road (A40) (Monmouth  
Road, Abergavenny, Gwent) (40  
MPH Speed Limit) Order 1991  
(Revocation) Order 2015

*Gwnaed*                              27 Awst 2015

*Made*                                      27 August 2015

*Yn dod i rym*                      28 Awst 2015

*Coming into force*              28 August 2015

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd Rhaglan i Lanymddyfri (yr A40) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “y gefnffordd”), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 84(1), 84(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrrd 1984(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel “Deddf 1984”), a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Gwent, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the Raglan to Llandovery Trunk Road (A40) (hereinafter referred to as “the trunk road”), in exercise of the powers conferred upon them by sections 84(1), 84(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984(1) (hereinafter referred to as “the 1984 Act”), and after consultation with the Chief Officer of the Gwent Police, make this Order.

**Enwi a Chychwyn**

**Title and Commencement**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 28 Awst 2015. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn (Dirymu) Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Ffordd Trefynwy, y Fenni, Gwent) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 1991 2015.

1. This Order comes into force on 28 August 2015 and its title is The Trunk Road (A40) (Monmouth Road, Abergavenny, Gwent) (40 MPH Speed Limit) Order 1991 (Revocation) Order 2015.

**Dirymu**

**Revocation**

2. Mae Gorchymyn Cefnffordd (yr A40) (Ffordd Trefynwy, y Fenni, Gwent) (Terfyn Cyflymder 40 MYA) 1991(2) drwy hyn wedi ei ddirymu.

2. The Trunk Road (A40) (Monmouth Road, Abergavenny, Gwent) (40 MPH Speed Limit) Order 1991(2) is hereby revoked.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig 27 Awst 2015

**RICHARD MORGAN**

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau  
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p. 27; disodlwyd adran 84(2) gan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22), Atodlen 8, paragraff 61. Yn rhinwedd erthygl 2 o O.S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.
- (2) O.S. 1991/1591

**GORCHYMYN (DIRYMU) GORCHYMYN  
CEFNOFFORDD (YR A40) (FFORDD  
TREFYNWY, Y FENNI, GWENT) (TERFYN  
CYFLYMDER 40 MYA) 1991 2015**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adrannau 84(1), 84(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984, a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi. Effaith y Gorchymyn fydd dirymu'r terfyn cyflymder presennol o 40 mya sydd wedi ei osod ar y darn o gefnffordd yr A40 ym Mhlas Derwen, Y Fenni, Sir Fynwy sy'n ymestyn o bwynt 183 o fetrau i'r de o ganolbwynt ei chyffordd â Ffordd yr Orsaf, hyd at bwynt 553 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno. (Byddai'r darn hwn yn dychwelyd i statws ffordd gyfyngedig (terfyn cyflymder 30 mya) yn rhinwedd goleuadau stryd.)

Yn ystod cyfnod o 6 wythnos o 27 Awst 2015, gellir edrych ar gopi o'r Gorchymyn hwn, ynghyd â chopi o'r Gochymyn sydd i'w ddirymu a'r plan cysylltiedig, a'r llythyr o'r penderfyniad, yn rhad ac am ddim, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Llyfrgell y Fenni, Baker Street, Y Fenni NP7 5BD neu gellir ei gael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod gan ddyfynnu'r cyfeirnod qA1173902/1.

Gellir gweld copi o'r [Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar www.llyw.cymru](#) (detholer: Deddfwriaeth/ Is-ddeddfwriaeth/ Offerynnau Statudol Lleol/ Gorchymynion Traffig Parhaol/ 2015).

Signed under authority of the Minister for Economy, Science and Transport, one of the Welsh Ministers

Dated 27 August 2015

**RICHARD MORGAN**

Head of Asset Management and Standards  
Welsh Government

- (1) 1984 c.27; section 84(2) was substituted by the New Roads and Street Works Act 1991 (c.22), Schedule 8, paragraph 61. By virtue of S.I. 1999/672, article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006, these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.
- (2) S.I. 1991/1591

**THE TRUNK ROAD (A40) (MONMOUTH  
ROAD, ABERGAVENNY, GWENT) (40 MPH  
SPEED LIMIT) ORDER 1991 (REVOCATION)  
ORDER 2015**

The Welsh Ministers have made an Order under sections 84(1), 84(2) and 124 of, and paragraph 27 of Schedule 9 to, the Road Traffic Regulation Act 1984, the effect of which will be to revoke the existing 40 mph speed limit imposed on the length of the A40 trunk road at Plas Derwen, Abergavenny, Monmouthshire that extends from a point 183 metres south of the centre-point of its junction with Station Road, to a point 553 metres south of the said junction. (This length would revert to restricted road status (30 mph speed limit) by virtue of street lighting.)

During a period of 6 weeks from 27 August 2015, a copy of the Order, together with a copy of the Order to be revoked, associated plan and the decision letter, may be inspected, free of charge, during normal office hours at Abergavenny Library, Baker Street, Abergavenny NP7 5BD or may be obtained free of charge from the address below quoting reference number qA1173902/1.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at [www.gov.wales](#) (select: Legislation/ Subordinate Legislation/ Local Statutory Instruments/ Permanent Traffic Orders/ 2015).

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn  
oddi wrth: Y Gangen Orchmynion,  
Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc  
Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Trafnidiaeth  
Llywodraeth Cymru

**A copy of this Notice in larger print can be  
obtained from Transport, Orders Branch,  
Welsh Government, Cathays Park, Cardiff  
CF10 3NQ.**

**M D BURNELL**  
Transport  
Welsh Government